# CYNGOR CYMUNED BETHESDA
# BETHESDA COMMUNITY COUNCIL

*“Gwerth cymuned yw'n credo*
*A'n braint yw gwarchod ein bro”*

Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
*Clerk and Chief Financial Officer*
**Donna Watts**
Rhif Ffôn: 01248 602131
Ebost: CyngorBethesda@ogwen.org

26 Stryd Fawr
Bethesda
Gwynedd
LL57 3AE

Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol o’r Cyngor a gynhaliwyd yng Ngorffwysfan
**Nos Iau 25 Mehefin 2020**

**PRESENNOL:**
**Ward Ogwen**
Y Cynghorydd Neville Hughes (dros y ffôn)
Y Cynghorydd Gwilym Owen
Y Cynghorydd Griff Morris
Y Cynghorydd Walter Williams
Y Cynghorydd Einir Williams
Y Cynghorydd Bleddyn Williams

**Ward Gerlan**
Y Cynghorydd Ann Williams
Y Cynghorydd Linda Brown

**Ward Rachub**
Y Cynghorydd Godfrey Northam
Y Cynghorydd Michael Williams

**Cyngor Sir**
Y Cynghorydd Rheinallt Puw
Y Cynghorydd Paul Rowlinson

1. **Croesawyd** pawb i’r Cyfarfod gan y Cadeirydd y Cyng. Einir Williams.
   **Ymddiheuriadau** –gan y Cyngr. Dyfrig Jones, Mary Jones a Pearl Evans.

**2. Datgan Diddordeb**
Eitem 6-Partneriaeth Ogwen: Y Cyng. Neville Hughes.

**3. Materion Brys**
**3.1** Parc Sglefrio – Robert Parsonson yn awyddus i ddod i drafod/ein diweddaru ar y cynlluniau. Penderfynwyd ei wahodd i’r cyfarfod nesaf.
**3.2** Bin halen Cil Caseg – y Cyngor eisoes wedi penderfynu ei waredu, unwaith bydd y halen i gyd wedi ei ddefnyddio.
**3.3** Bin halen Stryd y Ffynnon – yn symud lawr y ffordd (cael ei daro gan geir). Y Clerc i gael rhywun i’w symud i’w safle gwreiddiol, sef tu mewn i’r maes parcio.

**4. Cofnodion**
Cadarnhawyd cywirdeb cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Chwefror 2020.

**5. Materion yn codi o’r Cofnodion**
**5.1** Arwyddion newydd Ogwen Bank – cais cynllunio ôl-weithredol wedi ei gyflwyno ar gyfer eu gosod. Y cais cynllunio wedi ei wrthod, ond rŵan yn mynd at y panel apêl.
**5.2** Cyffordd A5 ger Copa – problem gweleddedd gan bod coeden wedi gordyfu yn gardd 87 Stryd Fawr. Y Clerc i hysbysu Cyngor Gwynedd. Dim ymateb hyd yn hyn.
**5.3** Lloches bws Sgwar Rachub – cais wedi ei anfon at Cyngor Gwynedd i osod lloches cantilever heb seti ar y safle, ynghŷd a datganiad ysgrifenedig gan breswylydd rhif 3 nad oes ganddo unrhyw wrthynebiad. Disgwyl ymateb Cyngor Gwynedd am beth yw’r cam nesaf.

**5.4** Ffordd Coetmor, cyflwr y lôn yn ofnadwy, yn enwedig wrth y llyfrgell. Llawer o dyllau angen eu llenwi. Dim ymateb wedi dod gan Gyngor Gwynedd.
**5.5** Stryd Fawr, Rachub – o Capel Carmel at y Sgwâr. Y ffordd angen sylw. Dim ymateb hyd yn hyn.
**5.6** Rhos y Nant – dŵr yn sefyll, angen sylw i'r draeni. Dim ymateb hyd yn hyn.
**5.7** Capel Jerusalem – angen sinc newydd, llifogydd yn aml yno. Cyngor Gwynedd yn gweithio ar ddatrysiad.
**5.8** Cadw Cymru'n Daclus – Lleoedd Lleol ar gyfer natur - anelu at greu, adfer a gwella cannoedd o gynefinoedd ledled y wlad. Y Cyngor yn awyddus cael un o'r pecynnau ar gyfer Llys Dafydd. Y Clerc wedi anfon y ffurflen gais.
**5.9** Cyng. Rheinallt Puw – llun o dô lloches bws Adwy'r Nant, angen ei adnewyddu. Y nwyddau wedi eu prynu, ond heb eu gosod hyd yn hyn oherwydd Cofid 19.

**6. Cyfrifon 2019-2020**
Cyflwynwyd y cyfrifon oedd wedi cael eu harchwilio a'i cymeradwyo gan y Pwyllgor Cyllid. Penderfynwyd derbyn y cyfrifon.

**7. Archwiliad Mewnol cyfrifon 2019-20**
Yr Archwiliad Mewnol wedi ei gwblhau yn drylwyr gan Gyngor Gwynedd. Trafodwyd yr adroddiad a dderbyniwyd gan Gyngor Gwynedd. Yn dilyn barn yr Archwilydd, mae'r Cyngor yn ymrwymo i roi sylw i'r risgiau a chymryd camau priodol i'w lliniaru.

**8. Ffurflen Flynyddol 2019-20**
Penderfynwyd bod y Cyngor yn hapus i gymeradwyo'r ffurflen. Y Cadeirydd a'r Clerc i'w arwyddo.

**9. Cyfarfod Blynyddol 2020**
Oherwydd y pandemig Cofid-19, penderfynwyd gohirio'r cyfarfod blynyddol am rŵan. Penderfynwyd ail-edrych ar y sefyllfa ym mis Medi.

**10. Adroddiad Partneriaeth Ogwen**
Y Cyngor eisiau diolch i Mel a'r tîm am y gwaith sydd wedi mynd ymlaen yn ystod y cyfnod anodd yma. Rydym yn falch iawn o'r holl waith.

**11. Cynrychiolydd Ynni Ogwen**
Cyng. Bleddyn Williams yn ei chael hi'n anodd oherwydd gofal plant i fynychu cyfarfodydd. Etholwyd y Cyng. Dyfrig Jones yn ei le.

**12. Lloches bws Braichmelyn**
Cynigwyd tacluso'r lloches gyda murlun, ond ar ôl trafodaeth penderfynwyd bod angen lloches newydd ar y safle. Y Clerc i drefnu.

**13. Cae chwarae Pantdreiniog**
Wedi derbyn un pris arall ar gyfer llawr i'r cae chwarae newydd arfaethedig. Y Pwyllgor Cyllid a'r Is-bwyllgor cae chwarae i drafod.

**14. Maes parcio Gerlan**
Penderfynwyd symud ymlaen gyda'r maes parcio, a derbyn pris Ymgynghoriaeth Gwynedd Consultancy.

**15. Gohebiaeth**
Roedd pawb wedi cael copi o'r rhestr 'crynodeb o ohebiaeth Mehefin 2020'
**15.1** E-bost gan Partneriaeth Ogwen – hysbysebu'r gronfa Crowdfunder ar gyfer y banc bwyd. Y Cyngor yn fodlon cyfrannu £500.
**15.2** E-bost gan y Cyng. Rheinallt Puw – wedi derbyn cwynion am wydr yn Parc Meurig, ac yn awyddus i drefnu 'deep clean' ar y cyd gyda Cyngor Cymuned Llandygai. Y Clerc i holi am brisiau.

**16. Penderfyniadau a Ceisiadau Cynllunio**
<u>**Penderfyniadau**</u>

**C18/1159/13/AM**
Y Wern, Hen Fferm Gerlan

Codi 4 tŷ newydd, lôn mynediad a mynediad newydd
**Penderfyniad:** Cais amlinellol-ar y gweill.

**C19/1203/13/DT**
Heulwen, 23 Ystad Coetmor, Bethesda

Cais ar gyfer codi estyniad deulawr gyda tô grib yng nghefn yr eiddo
**Penderfyniad:** Ar y gweill.

**C20/0068/13/CT**
18 Braichmelyn, Bethesda

Cais ar gyfer torri 4 coeden wedi eu lleoli o fewn Ardal Gadwraeth.
**Penderfyniad:** Caniatawyd, gydag amodau.

**C20/0098/13/DT**
2 Tŷ'n Ffridd, Rachub

Dymchwel yr estyniad presennol a chodi estyniad un llawr newydd yn ei le ar y talcen
**Penderfyniad:** Caniatawyd, gydag amodau.

**C20/0138/13/LL**
Llaethdy Gwyn, Abercaseg, Bethesda

Cais llawn ar gyfer codi estyniad unllawr cefn a gosod paneli solar ar y tô.
**Penderfyniad:** Caniatawyd, gydag amodau.

**C20/0018/13/LL**
Tir ger Llain y Pebyll, Bethesda

Codi 7 annedd preswyl ar gyfer yr henoed ynghyd â llecynnau parcio a man troi.
**Penderfyniad:** Ar y gweill.

**C20/0057/16/LL**

Zip World, Chwarel Penrhyn, Bethesda

Lleoli 4 cynhwysydd dros dro i'w defnyddio ynghlwm â'r trac cartio newydd

**Penderfyniad:** Ar y gweill.

**17. Taliadau**

Awdurdodwyd y canlynol

| | |
|---|---|
| Cyflogau (Mehefin) | £302.27 |
| CThEM (Mehefin) | £75.60 |
| Tŷ Gobaith | £250.00 |
| Scottish Power – golau Nadolig | £40.26 |
| Scottish Power – golau Nadolig | £40.55 |